Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Nodyn Briffio

NRW N B 71.16

## Adroddiad y Cadeirydd

### 1. Cyfarfodydd â chyrff allanol

| Dyddiad y Cyfarfod | Cyfarfod â / Digwyddiad | Nodiadau |
|---|---|---|
| 3 Hydref | Gweithdy bord gron Ysgrifennydd y Cabinet, Caerdydd | Cyfarfod pellach i'r digwyddiad yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf i drafod goblygiadau Prydain yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. |
| | Lansio'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, Caerdydd | Lansiad swyddogol Cyfoeth Naturiol Cymru o'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, gydag Ysgrifennydd y Cabinet a rhanddeiliaid allweddol eraill yn bresennol |
| 11 Hydref | Digwyddiad Ynni Adnewyddadwy, Garwnant | Digwyddiad ar y cyd rhwng Cyswllt Ffermio, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyfoeth Naturiol Cymru i hyrwyddo manteision cynlluniau ynni adnewyddadwy amrywiol. |
| 18 Hydref | Defod Urddo Llywydd y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff, Llundain | Defod urddo flynyddol Llywydd y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff yn Llundain. Cyfarfod ag Emma Boyd, Cadeirydd Asiantaeth yr Amgylchedd, Lloegr, hefyd. |
| 19 Hydref | Cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet, Caerdydd | Cyfarfod ad-hoc ag Ysgrifennydd y Cabinet; Emyr Roberts ac Ashleigh Dunn i gyflwyno diweddariad ar y cynllun Gwerthuso Swyddi. |
| 2 Tachwedd | Pwyllgor Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol, Senedd, Caerdydd | Craffu blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru, dan gadeiryddiaeth Mark Reckless AC |
| 3 Tachwedd | Cynhadledd Flynyddol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Llandrindod | "Shaping a New and Dynamic Future for Welsh Agriculture" oedd pwnc y gynhadledd eleni. Gwnaeth siaradwyr drafod ystod o bynciau |

| | | |
|---|---|---|
| | | gan gynnwys cyfleoedd masnachu yn y dyfodol yn sgil Brexit, cyfeiriad cadwyn gyflenwi'r DU i'r dyfodol, a safbwynt Llywodraeth Cymru ar heriau a chyfleoedd wedi Brexit. |
| 15 Tachwedd | Lansiad *Ceidwad y Pyllau Glo*, Cwm Llynfi | Cynnal dadorchuddiad swyddogol cerflun Ceidwad y Pyllau Glo yng Nghwm Llynfi, Maesteg. Menter CNC i gynnwys y gymuned leol mewn prosiect adfywio ar gyfer sicrhau amryfal fanteision llesiant. Wedi'i gyd-drefnu ar gyfer CNC gan Geminie Drinkwater. |
| | Lansiad Commonwealth Canopy Initiative y Frenhines, Palas Buckingham, Llundain. | Rhwydwaith o brosiectau cadwraeth coedwigoedd, a fynychwyd gan gynrychiolwyr y Gymanwlad. Wedi mynychu gydag Emyr Roberts. |
| 28 Tachwedd | Y Ffair Aeaf, Llanfair-ym-Muallt | Y Ffair Aeaf flynyddol. Mynychu lansiad adroddiad y Gymdeithas Defaid Genedlaethol ar bwysigrwydd defaid mewn ardaloedd ucheldir yn ogystal â lansiad PestSmart - menter ar y cyd rhwng Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â heintio dŵr gyda phlaladdwyr. |
| 30 Tachwedd | Cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet | Cyfarfod ad-hoc ag Ysgrifennydd y Cabinet i'w briffio hi ar yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol. Gwnaeth Ceri Davies a Sarah Williams fynychu hefyd. |
| 1 Rhagfyr | Cinio CBI Cymru, Caerdydd | Cinio blynyddol CBI Cymru. Mynychu fel gwestai i Severn Trent Water. |
| 6 Rhagfyr | Cynhadledd y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, Llundain | Cynhadledd Busnesau Gwledig gyntaf y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, Llundain |

## 1) Plant!

Rwyf wedi ymgymryd â rôl Llysgennad y Bwrdd ar gyfer y fenter Plant!.Gallai'r rhaglen wireddu dau o brif nodau'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ac amcanion llesiant drafft Cyfoeth Naturiol Cymru. Dechreuodd y rhaglen ym mis

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Nodyn Briffio

Ionawr 2008 a Chyfoeth Naturiol Cymru fu'n cyflenwi'r rhaglen dros y tair blynedd ddiwethaf. Bwriad y rhaglen yw cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o blannu 100,000 hectar o goed i liniaru effeithiau newid hinsawdd a darparu dolen gyswllt ddiriaethol rhwng plant ifanc a'u teuluoedd a'r amgylchedd naturiol.